

# Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Gorffennaf 5ed 2022 yn Neuadd Sarnau. Yn bresennol oedd Eifion Davies (is-gadeirydd), Rita Jones, Alwyn Jones, Iolo V. Evans, Eilir Rowlands, Gwynedd Jones, Dewi Pritchard, Gwenda Morris, Gary Thomas a'r cler.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Bethan Thomas, Gwenda Evans, Maldwyn Jones a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Diolchwyd i Rita Jones am ei gwaith caled dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Gan fod Maldwyn Jones yn methu bod yn bresennol cytunodd Eifion Davies i gadeirio'r cyfarfod.

## **i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mai a chafwyd yn gywir.**

### **ii) Datgan Buddiant.**

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

### **iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

#### **a) Ymateb i'r cwynion a dderbyniwyd yn y cyfarfod diwethaf:-**

- i) Gwrych yn tyfu i'r ffordd ger yr hen gapel Glanrafon – nid oedd yr Arolygwr Priffyrdd o'r farn fod y gwrych yn amharu ar welededd ar hyn o bryd.
- ii) Ymholi pwy oedd yn berchen ar y llecyn o dir ar ochr y ffordd rhwng pentref Sarnau a Pencefn, roedd y cler wedi cael cadarnhad y byddai gweithlu Cyngor Gwynedd yn clirio'r coed o'r safle ond dim cadarnhad pwy oedd yn ei berchen. Cytunwyd i ail gysylltu â hwy i gael cadarnhad.
- iii) Cyflwr yr A494 rhwng Tomen Gastell, Llanfor a Sarnau - roedd yr Asiantaeth Cefnffyrdd yn disgwyl am bris gan contractwr ar gyfer y gwaith ail wynebu, yn y cyfamser byddant yn trwsio unrhyw ddiffygion peryglus.
- iv) Llechi yn rhydd ar do'r Hen Ysgol Fritanaidd, Glanrafon - roedd Swyddog Rheolaeth Adeiladu Cyngor Gwynedd am gael gair pellach gyda'r perchennog.
- v) Cyfyngiad cyflymder ar yr A494 ger Braich Ddu, Glanrafon - yn dilyn ymholiadau cafwyd cadarnhad fod y cyfyngiad cyflymder wedi cael ei osod yno dros dro tan roedd yr Asiantaeth Cefnffyrdd yn cael arian gan Lywodraeth Cymru i drwsio'r barriers yno.

#### **b) Mynwentydd.**

- i) Adolygu ffioedd – yn dilyn trafodaeth cytunwyd i godi ychydig ar y ffioedd claddu ar gyfer gweddill o 2022/23.
- ii) Archwilio'r cerrig beddi - roedd y cynghorwyr a'r cler wedi archwilio'r cerrig beddi yn y mynwentydd ac roedd arwyddion wedi cael eu gosod yno ac ym Mhethe Penllyn yn hysbysu'r cyhoedd o'r gwaith. Yn dilyn yr ymweliad roedd y cynghorwyr wedi dychwelyd i osod un o'r hen gerrig beddi ym mynwent Llanfor i lawr ar y ddaear. Diolchwyd iddynt am eu gwaith.
- iii) Cwynion am y gwaith torri glaswellt - roedd y cler wedi derbyn cwynion fod glaswellt wedi cael ei adael ar y llwybr ac wrth fynedfa mynwent Llandderfel ar ôl i'r fynwent cael ei dorri. Gofynnwyd i'r cler anfon llythyr at Gwmni Citalgarth yn gofyn iddynt dacluso llwybr bob tro ar ôl iddynt dorri'r glaswellt.
- iv) Nodwyd fod giât mynwent Llandderfel nol yn ei lle ond fod angen gorffen peintio'r railings. Roedd y cler wedi cael addewid y byddai'r gwaith wedi cael ei gwblhau'n fuan. Cytunwyd y dylai'r cler archebu'r arwyddion i'r fynwent unwaith fyddai Cyngor Gwynedd wedi gosod y polyn.

#### **c) Archwilio Asedau.**

Nodwyd fod yr asedau wedi cael eu harchwilio ac nid oeddynt angen unrhyw waith cynnal a chadw.

#### **iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

##### **a) Cyngor Gwynedd.**

- i) Rhaglen Waith yr Adran Briffyrdd.
- ii) Cau'r Ffordd Ddi-ddosbarth gyferbyn a Weirglodd Goch a Hen Weirglodd, Frongoch ar y 4/7/22.
- iii) Ymgynghori ar eu cynlluniau Rhwydwaith Teithio Llesol - cytunwyd i ddsbarthu'r e-bost i'r cynghorwyr nodi eu cefnogaeth ar gyfer y llwybr o Frongoch lawr i'r Bala.
- iii) Ymgynghori ar Gynllun Gwella Hawliau Tramwy.
- iv) Gweithdai Ardal Ni 2035 - cytunodd y cynghorwyr i fynychu'r gweithdy ym mis Medi.

##### **b) Cyfoeth Naturiol Cymru.**

- i) Sesiwn galw fewn yng Nghanolfan Hamdden Penllyn, 11/08/22.
- ii) Cynlluniau torri coed yng nghoedwigoedd Llanfor.
- iii) Gwerthusiad o Greu Coetir Glastir yn Nhŷ Tangraig – cytunwyd i ddatgan gwrthwynebiad y Cyngor fod tir amaethyddol yn cael ei ddefnyddio i blannu coed.
- iv) Diweddariad Diogelwch ar Gronfa Ddŵr Llyn Tegid.

##### **c) Amrywiol.**

- i) Cadno Communications – cwmni cysylltiadau a fydd yn gweithio ar ran RWE Renewables i ymgysylltu a rhanddeillaid Fferm Wynt arfaethedig Gaerwen – cytunodd y clerc fynychu'r cyfarfod i gael diweddariad ar y cynllun.
- ii) Grŵp Cynefin - byngalo 2 llofft ar gael yn Llandderfel - gofynnwyd i'r clerc i'w anfon ymlaen i Bwyllgor Neuadd Bro Derfel a gofyn iddynt eu harddangos.
- iii) Gwahoddiad i noson agoriadol Cylch Meithrin Garn Bach, Frongoch – cytunwyd i anfon neges yn dymuno'n dda i'r Cylch yn eu cartref newydd.
- iv) Llywodraeth Cymru – Canllaw'r Cynghorydd Da.
- v) The Anne Robson Trust Helpline - cyflwyniad i'r gwasanaeth.
- vi) Steddod Powys – gwahoddiad i'r digwyddiad cyhoeddi – cytunodd Gwynedd Jones fynychu ar ran y Cyngor.
- vii) Eglwys Llandderfel – gwahoddiad i'r Gwasanaeth Urddo Eglwys y Pererinion, 11/9/22 - cytunodd Gwenda Morris ei fynychu ar ran y Cyngor.

#### **v) Ceisiadau Cynllunio.**

- a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol, nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol:-  
C22/0177/04/LL - Addasu, ymestyn a chysylltu dau adeilad allanol presennol yn 2 uned wyliau cynhaliol. Bryn Banon, Llanfor.  
C22/0249/04/LL – Adeiladu sied amaethyddol. Tyn Y Ddol, Llandderfel.  
C21/0314/04/CR – Codi porth ar flaen yr eiddo a lolfa haul. Tyn Y Ddol, Llandderfel.

#### **vi) Materion Ariannol.**

##### **a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau)**

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Mehefin a chafwyd yn gywir.

##### **b) Taliadau**

- i) Cytunwyd i dalu cyflog a chostau'r clerc (Ebr-Meh) a TWE.
- ii) Cymeradwywyd i dalu am drwsio giatiau mynwent Llandderfel a Frongoch a hysbyseb Pethe Penllyn pan ddaw'r anfonebau ac i dalu am arwyddion mynwent Llandderfel.

**vii) Materion lleol.**

**a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-**

- i) Pont Fawr, Llandderfel - roedd canghennau coed wedi casglu o dan y bont.
- ii) B4401 ger Bryn Melyn, Llandderfel - roedd tamaid o'r ffordd angen sylw.
- iii) Llwybr troed Bala i Lanfor - gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau gyda Chyngor Gwynedd a'r Asiantaeth Cefnffyrdd pwy oedd berchen ar y ddwy fainc ar y llwybr.
- iv) Clwb Carafanau a Gwersylla, Cefnddwysarn - gofynnwyd i'r clerc ail gysylltu â'r perchnogion i ofyn a oedd posib torri rhagor o'r canghennau oedd yn dal i bwyso ar y lein ffôn. Roedd cerbydau hefyd yn dod allan o'r fynedfa heb stopio ac roedd peryg o ddamwain yno.
- v) Gwrych Tŷ Nant, Cefnddwysarn - angen torri top y gwrych yn nol er mwyn gwella gweledded gyrwyr.
- vi) Gwter rhwng Bryn Ethol a Bryn Awelon angen ei lanhau i stopio dŵr yn casglu ar y ffordd.
- vii) Arwydd Cefnddwysarn ochr Sarnau angen ei lanhau.
- viii) Camfa ym mhentref Sarnau angen ei drwsio.

**b) Llwyddiant i Pale Hall yn ddiweddar.**

Cytunwyd anfon gair o longyfarchiadau i Pale ar eu llwyddiant yn ddiweddar. Cafodd y gwesty eu cynnwys yn rhestr o'r gwestai gorau yn y DU'r Telegraph.

**c) Galwadau ffôn amheus.**

Roedd rhai o'r cynghorwyr wedi derbyn galwadau ffôn amheus gyda'r posibilrwydd bod y scamwyr wedi cael eu rhifau ffôn o wefan y Cyngor. Cytunwyd i rybuddio'r cynghorau eraill a'r heddlu.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Medi 6ed yn am 7.30 y.h. yn Neuadd Mynach.**